PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 156 | Rhif 17 | Ebrill 27, 2023 | 50c.

## Dathlu ar Sul y Pasg



Dyma lun o rai aelodau o deulu Gilfach, Blaencelyn yn mwynhau dathlu gobaith y Pasg, sef fod y Crist a groeshoeliwyd yn fyw. Yma gwelir dau frawd sef Tudur a Gruffudd Davies (roedd eu brawd Sianco wedi methu a bod yn bresennol) ac yn y canol eu cefnder Blaidd James Phillips (roedd ei ddau frawd Llew ac Arth wedi methu a bod yn bresennol). Yma y mae'r tri yn mwynhau cael hanes y Pasg gyda'r Parchedig Carys Ann eu gweinidog. Fe gymerodd y tri ran yn y dathliadau a fu yng Nghapel y Wig, ger Llangrannog.

## Podlediad *Y Cwmni Bach*: sgwrsio gyda'n gilydd

Mae'r rhifyn diweddaraf o bodlediad *Y Cwmni Bach* bellach ar wefan yr Undeb. Y tro hwn, sgwrs gyda Julie Edwards, Swyddog Diogelu ar ran y Panel Diogelu Cydenwadol sydd gyda ni. Julie sy'n darparu'r hyfforddiant diogelu i'n gweinidogion a'n heglwysi ni drwy'r Panel Diogelu Cydenwadol.





**Stori bywyd**

Mae stori bywyd Julie yn un ddifyr; i ddechrau, nid o Gymru y daw hi ond o ogledd Lloegr. Felly, sut y daeth merch o bentref glofaol yn Swydd Durham i fyw i Gymru? Mae hanes Julie'n un annisgwyl a diddorol, ac mae'n sôn yn agored am ei thaith at ffydd hefyd. Gobeithio y gwnewch chi fwynhau *Y Cwmni Bach* yng nghwmni Julie Edwards.

*parhad ar dudalen 7*

## Llythyr ein Llywydd at Bennaeth Eglwys Uniongred Rwsia

*Ar drothwy'r Pasg fe wnaeth y Parchg Beti-Wyn James, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, apelio at bennaeth yr Eglwys Uniongred yn Rwsia i ddefnyddio'i ddylanwad i ysgogi cadoediad yn y rhyfel yn Wcráin. Roedd y llythyr at y Patriarch Kirill yn galw arno i ddwys ystyried oferedd y dinistr a'r lladdfa o filwyr a phobl ddiniwed sy'n achosi'r fath ddioddefaint a galar yn y ddwy wlad.*



**At ein brawd yng Nghrist, y Sanctaidd Kirill, Patriarch Moscow a holl Rwsia.**

Cyfarchion oddi wrth eich cyd-Gristnogion yng Nghymru, sy'n gweddïo'n ddi-baid dros bawb sy'n dioddef yn y gwrthdaro rhwng Rwsia ac Wcráin.

Rydym yn ymwybodol o deyrngarwch yr Eglwys Uniongred yn Rwsia i lywodraeth eich gwlad, a'ch awydd i ailfeddiannu Kyiv fel man geni Cristnogaeth cenedl y Rws. Gwyddom hefyd nad ydych yn cydnabod ein traddodiad ni fel Protestaniaid. Ond yr un yw ein Duw, ac yn enw Iesu Grist, Tywysog Tangnefedd, rydym yn apelio arnoch i ddwys ystyried oferedd y dinistr a'r lladdfa ofnadwy o filwyr a phobl ddiniwed sy'n achosi'r fath ddioddefaint a galar yn y ddwy wlad.

Rydym hefyd yn pryderu'n fawr y gallai'r gwrthdaro yn Wcráin droi'n rhyfel ehangach rhwng Rwsia a gwledydd y gorllewin. Byddai'r fath ryfel rhwng gwledydd cred y tu hwnt i bob tristwch, yn ogystal â bod yn fygythiad posib i bawb ar y blaned hon.

Fel eich cyd-Gristnogion yng Nghymru rydym yn apelio'n daer arnoch i ddefnyddio eich dylanwad aruthrol i ysgogi cadoediad yn yr ymladd rhwng Rwsia ac Wcráin – cadoediad allai roi cyfle i agor trafodaethau heddwch.


Yr eiddoch yng Nghrist, yr hwn aeth i'r groes ar Galfaria drosoch chi a fi, a phawb arall.

**Parchg Beti-Wyn James BD M.Th.**
**Llywydd, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**


# SYNOD WANWYN CHWAER EGLWYS

*Dyma ran gyntaf adroddiad y Parchg Dr Noel Davies o Synod yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig.*

Braint a hyfrydwch oedd i Lywydd yr Undeb, y Barchg Beti-Wyn James, a minnau, gael cynrychioli Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Synod Wanwyn yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig (E.Dd.U./URC) fore Sadwrn, 18 Mawrth. Roeddem yn cyfarfod yn gyfan gwbl ar Zoom, ond er hynny roedd yn braf i gael cyfle eto i gyfarfod â'n cyfeillion yn ein chwaer eglwys yn CWM ac i weld sut mae enwad bychan iawn yng Nghymru (tua 3500 o aelodau mewn tua 80 eglwys, gyda chyfanswm o 35,000 o aelodau ar draws Prydain) yn cyflawni'r alwad i fod yn ddisgyblion Iesu heddiw.




### Holl bobl Dduw



Gallai nifer o'r materion a drafodwyd fod o ddiddordeb i Annibynwyr. Un ohonynt oedd adroddiad bywiog ar 'Holl bobl Dduw'. Ymdrech gan Synod Cymru yw hwn i gael yr eglwysi i ystyried beth mae'n ei olygu yn eu bywyd Cristnogol i fod 'yn eglwys heddiw, yfory ac i'r dyfodol'. Cymhellir pob rhan o fywyd yr eglwysi – plant, ieuenctid, aelodau, diaconiaid, gweinidogion, pregethwyr cynorthwyol, rhieni, ffrindiau yn y gymdogaeth – i rannu yn y drafodaeth. Fel y dywed y cyflwyniad, 'Os ydych yn ymwneud ag eglwys mewn unrhyw fodd, y mae hyn i chi.' Yn wir, teimlai'r ddau ohonom y gallai fod o help pe bai'r adroddiad ar gael yn y Gymraeg.

### Galwad i wasanaethu

Adroddiad arall pwysig oedd: 'Ein galwad a'n hymrwymiad i wasanaethu Duw.' Her sydd yn yr adroddiad hwn i'n haelodau ystyried a ydyw Duw yn ein galw i wasanaeth arbennig yn eglwys Crist. Efallai bod gennym ddoniau arbennig i weithio gyda phlant ac ieuenctid nad ydynt yn cael eu defnyddio yn yr eglwys ar hyn o bryd. Fedrem ni gyfrannu at arwain addoliad yn ein heglwys o bryd i'w gilydd neu hyd yn oed ddechrau hyfforddiant i gael ein cydnabod fel pregethwr cynorthwyol. Ac nid yw'r alwad i weinidogaeth y Gair a'r Sacramentau yn ein plith wedi tawelu chwaith! Mae Duw yn dal i alw bobl i wasanaeth yma yng Nghymru. Pa ddoniau arbennig sydd gennyf fi a sut mae eu defnyddio yng ngwasanaeth yr eglwys?

### Gwrando ar blant

Ochr yn ochr â hyn, mae her 'Gwrando ar leisiau plant.' Yn arferol, gwneud pethau dros blant a wnawn, mewn ysgolion Sul neu weithgareddau yn yr wythnos. Ond beth am wrando ar eu lleisiau pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau am fywyd a gwaith yr eglwys? Pa newidiadau fydden nhw'n hoffi gweld yn eu haddoliad? Sut y bydden nhw'n hoffi cymryd rhan? Fydden nhw'n hoffi gweld newidiadau yn ein hadeiladau i'w gwneud yn fwy addas ar eu cyfer? Beth fydden nhw'n rhoi blaenoriaeth iddo wrth feddwl am ein gwaith yn y gymdogaeth a sut fydden nhw am helpu?

A dyna i chi her yr amgylchedd! Mae hyn yn bwysig iawn i'n plant a'n hieuenctid. Pan fyddwch chi'n cynnal cwrdd eglwys nesaf beth am wahodd rhai o'r plant a'r ieuenctid i wneud cyfraniad i'r drafodaeth? Efallai mai un ohonyn nhw fydd yn rhoi bys ar *y peth* y dylem fod yn ei wneud!

# GOHEBIAETH

## Efengylu

Mae gennyf rifyn o'r *Tyst* o'r cyfnod yn fuan ar ôl i mi ddarfod yng ngholeg Bala Bangor. Roedd rhaid i mi fynychu darlithiau yn y brifysgol ac ambell dro roedd cynnwys rhai o'r darlithoedd hynny yn codi pwys arnaf oherwydd y ddiwinyddiaeth newydd a gawsom ynddynt.

O ganlyniad roedd rhaid i mi ofyn am gael siarad â Dr Tudur Jones ac mor annwyl oedd ef. Gwelais ddagrau yn ei lygaid wrth i mi ddweud fy mwrdwn wrtho. Roedd yn ein coleg ni rai myfyrwyr yn teimlo'n debyg i mi. Ar ôl trafod aeth dau frawd bron ar unwaith i'r America. Dyna golled fawr i ni, cododd un arall a chychwyn eglwys efengylaidd yn Waunfawr ger Caernarfon. Un arall aeth oedd Anita Parry a fu farw 2021. Roedd yn fenyw addfwyn, ond credaf iddi gael hi'n galed gan ei bod yn berson o argyhoeddiad Efengylaidd.

Cefais ddau gyngor gwych gan Dr Tudur Jones a wnaeth les mawr i mi. Y cyntaf, oedd fy annog i ymchwilio i hanes Byddin yr Iachawdwriaeth yng Nghymru. Yn ail, cynghorodd fi i dderbyn gofalaeth am dair blynedd. Euthum felly i Cymer, Port Talbot. Yno daeth un doethur i siarad mewn cyfarfod arbennig, ac fe es i yno i wrando. Yn ystod y cyfarfod roedd yn rhaid i mi godi ar fy nhraed i gywiro'r siaradwr gan ei fod yn dweud celwydd. Bu rhaid i mi wneud hynny eto yn ddiweddarach mewn un capel nad wyf am ei enwi. Yno roedd enghraifft amlwg o'r ddiwinyddiaeth newydd oedd wedi datblygu. Dyma fi rŵan yn dod yn ôl at y ddiwinyddiaeth bersonol, diwinyddiaeth sy'n deillio o'r Beibl. Rhoddodd Dr Tudur Jones gyngor arall i mi sef, 'Safa gyda diwinyddiaeth Diwygiad 1904-05.'

Erbyn hyn ysgrifennais hanes Byddin yr Iachawdwriaeth yng Nghymru, am ei ffyrdd o weithio yng Nghymru ac ar hyd a lled y byd. O ganlyniad i'w diwinyddiaeth a'i phwyslais ar efengylu a chenhadu lledodd y mudiad i Rwsia a'r cyfandir, i Awstralia ac America. Heddiw yng Nghymru mae llawer o gapeli ac eglwysi wedi cau. Rwyf fi wedi penderfynu mynd ar daith efengylu trwy Gymru. Bwriadaf deithio trwy ddefnyddio fy ngherdyn bws gan aros mewn llety gwely a brecwast. Bydd gennyf gorn siarad i gynnal cyfarfodydd awyr agored a hefyd bydda yn barod i gynnal oedfaon Cymraeg mewn eglwysi gwan. Bydd y llith hon yn ymddangos ar ôl i mi gychwyn ar y daith ym mis Mawrth. Os gwelwch fi o gwmpas yn gwisgo siaced lachar felyn dewch draw i gael sgwrs â mi. Mae cyfeillion i mi yn gweddïo dros y fenter hon. Dyma sut y bydd yr eglwys yn tyfu.

**Y Parchedig Wena D. Parry, BA**

Yr Adran Gydenwadol

EBRILL 27 2023 RHIF 113

# Argraffiadau o Ŵyl Llanw, Llangrannog wedi'r Pasg

Ers 2008 mae ein teulu ni wedi bod yn diflannu am ychydig ddyddiau ar ôl y Pasg bob blwyddyn er mwyn ymuno yng Ngŵyl Llanw, lle bynnag y câi ei chynnal. Wedi toriad o rai blynyddoedd, fe fentrwyd cynnal gŵyl gyfan o ddydd Llun tan ddydd Iau eto eleni yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog, lle bu'r gwyliau cyntaf hynny 15 mlynedd yn ôl. Dechreuodd yr ŵyl gyda thrigain o unigolion, ac yr oedd yn braf gweld croestoriad o Gristnogion Cymraeg o nifer o draddodiadau efo'i gilydd eleni a'r ŵyl erbyn hyn bum gwaith yn fwy na'r gyntaf o ran niferoedd. Yr oedd y tywydd yn enbyd, ond y gwmnïaeth yn felys a'r awyrgylch yn fendith i fod ynddo. Yr oedd yr amser yn gyforiog o gyfleon i addoli, gweddïo a dysgu, ac i'r teuluoedd gael ymuno yng ngweithgareddau'r gwersyll a threulio amser yn gwneud ffrindiau a chreu atgofion.

Gobeithio y bydd modd adrodd dros y misoedd nesaf am yr amrywiaeth o bynciau y cyffyrddwyd â nhw a'r gweithgaredd yr adroddwyd arno yn y seminarau a'r cyfarfodydd. Ond dyma argraffiadau dwy a deithiodd gryn bellter i fod yn rhan o'r ŵyl. Diolch iddyn nhw am rannu, a dwi'n falch iawn o'u cynnwys nhw isod. (Gol. HP-D)



Llawenydd oedd cael bod yn rhan o ddathliadau gŵyl Llanw yn Llangrannog eleni. Mor fendithiol oedd cael ymbellhau oddi wrth ofalon bywyd dyddiol i dawelu a threulio cyfnod yng nghwmni Cristnogion eraill yn addoli Duw. Roedd yno Gristnogion o bob oed, yn deuluoedd, cyplau ac unigolion mewn awyrgylch cariadus, cynhwysol. Arbennig o braf oedd clywed lleisiau plant a phobl ifanc yn y cefndir o bryd i'w gilydd yn ystod y cyfarfodydd, a'u gweld nhw a'u rhieni yn teimlo'n rhydd i fynd a dod yn ôl yr angen – peth bach, oedd yn fynegiant syml o gariad a gofal pawb am ei gilydd.

Profiad gwych oedd cael addoli ar gân gyda'r band a'r caneuon moliant cyfoes. Roeddwn yn teimlo llawenydd fel gwên fawr yn lapio amdanaf wrth ganu moliant i'r Arglwydd. Cawsom dystiolaeth gan nifer o unigolion yn rhannu am y pethau mae Duw yn ei wneud yn eu bywydau a'u cymunedau, ac roedd yn gymaint o galondid i glywed am bob un ohonyn nhw a gweddïo drostynt.

Roedd yr anerchiadau yn seiliedig ar y llythyr at y Colosiaid. Roeddynt yn gyfoethog o heriau cariadus i ddyfnhau ein perthynas efo Duw – gan gynnwys ein hannog i edifarhau am y pethau rydan ni'n eu gwneud i dristáu'r Ysbryd Glân; i beidio bod ofn gweddïo am wyrthiau; i fod ag angerdd hyd ddagrau dros fywyd ysbrydol ein gwlad.

Ond o'r holl ddarpariaeth, cyfarfod gweddi trydanol nos Fercher wnaeth fwyaf o argraff arna i – roedd yn drysor pur. Cawsom gyfnod o weddïo pwerus gydag eiriol angerddol dros ein cyflwr ysbrydol ni a'n gwlad na phrofais ei debyg o'r blaen. Yn ddiamau roedd yr Ysbryd Glân ar waith. Braint, braint oedd cael bod yno.

Rydw i'n rhoi diolch i Dduw am gael bod yn Llanw eleni yn ceisio ei wyneb, dyfnhau fy ffydd a mwynhau cymdeithas ei bobl.

*Gwenith Jones, Yr Wyddgrug*

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

*Argraffiadau o Ŵyl Llanw, Llangrannog wedi'r Pasg*
*(parhad o dudalen 1)*

Ces i wythnos arbennig o ddysgeidiaeth wych trwy'r Colosiaid, amser i ddal i fyny hefo ffrindiau ac i fwynhau bod yn Llangrannog. Fel rhywun ifanc, roedd yn wych cael cyfarfod hefo teulu Crist dros Gymru, i gael ein hannog a'n herio mewn sawl ffordd yn ein ffydd. Roedd yn gymaint o fendith i gael codi mawl cyfoes a llawn bywyd gyda'n gilydd.

Yn ystod y nosweithiau cafodd dŵr ei ddefnyddio i esbonio bywyd y Cristion, o gael ein llenwi gyda'r Ysbryd Glân yn



ddyddiol, a dod at y Tad grasol a chariadus yn rheolaidd fel ein bod ni'n gorlifo gyda'i gariad. Yna, ar y noson olaf, y darlun o sut mae ein gweddïau ni mewn dagrau yn dangos i Dduw ein bod ni o ddifri. Ar y noson honno, digwyddodd rhywbeth dwi erioed wedi ei brofi o'r blaen. Roedden ni'n canu emynau traddodiadol ac yn galw ar yr Arglwydd am tua awr.

Ar y bore olaf dyma ni'n clywed am sut mae Duw ar waith dros y wlad a sut gallwn ni ymuno mewn gweddi a gwneud pethau ymarferol. Mae wir yn teimlo fel ein bod ni ar ddechrau cyfnod newydd yma yng Nghymru. Ac mae'n wych ein bod ni fel pobl ifanc yn gallu bod yn rhan fawr o rannu am wirionedd Iesu a gobaith y bedd gwag sy'n berthnasol i bawb. Gadawais yn gwybod ei fod Ef ar waith ac yn sicr y bydd e'n defnyddio pob unigolyn, dim ots pa mor fregus a thoredig, a thrwy ei nerth a'i gariad diddiwedd ef gallwn fynd yn ôl i'n prifysgolion yn gwybod ei fod Ef wrth ein hochr bob amser.

*Esyllt Roberts, Waunfawr*

**DS I weld y prif sesiynau eto, ewch i dudalen grŵp Facebook Llanw ac am ragor o wybodaeth am yr ŵyl, ewch i wefan Llanw.org**



Diolch i Hywel M. Davies am y lluniau

## Crefydd, Iaith a Hunaniaeth: Cynhadledd Er Cof am Walford Gealy

### Dydd Sadwrn, 13 Mai 2023 | 10:00–14:30
### Canolfan Merched y Wawr, Aberystwyth

Cynhadledd yw hon i goffáu'r athronydd blaenllaw Walford Gealy, a fu'n addysgu yn Adran Efrydiau Allanol Coleg y Brifysgol Aberystwyth am ddegawdau. Graddiodd Walford o Adran Athroniaeth adnabyddus Coleg y Brifysgol Abertawe – 'The Swansea School' – a oedd yn drwm o dan ddylanwad yr athronydd o Awstriad Ludwig Wittgenstein. Roedd yn arddel syniadau am iaith a oedd yn bwysig yn ogystal i athronwyr eraill o'r Adran, megis cyfaill agos Walford, D. Z. Phillips, a'r Athro J. R. Jones.

Bydd y digwyddiad, a gynhelir gan yr Urdd Athronyddol – Adran Athronyddol Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru, yn cynnal sgyrsiau ar amrywiol themâu, gan roi sylw hefyd i yrfa Walford, a gyfrannodd gyhoeddiadau pwysig mewn sawl maes, gan gynnwys Athroniaeth Crefydd a Hanes Athroniaeth.

Rydym yn falch dros ben o allu gwahodd dau westai arbennig i'r digwyddiad. Bydd yr **Athro Mererid Hopwood** yn ymuno â ni ar gyfer lansiad swyddogol ei chyfrol *Dychmygu Iaith*, sy'n ymdrin â nifer o gwestiynau sylfaenol am iaith, gan gynnwys syniadau Wittgenstein a'i olynwyr.

Yn ogystal, bydd y **Parchedig Ganon Dr Matthew Hill** yn ymuno i drafod athroniaeth crefydd D. Z. Phillips, a oedd fel Walford wedi'i ysbrydoli gan Wittgenstein. Bydd aelodau'r Urdd **Dr Rhianwen Daniel** a **Dr Huw Williams** yn cyflwyno sgyrsiau ar gyfraniad Walford a'r Cymro arall o Ysgol Abertawe a fu'n ysbrydoliaeth i Gymdeithas yr Iaith drwy gydol y 60au, sef J. R. Jones.

Mae modd archebu lle ar gyfer y gynhadledd drwy glicio ar y ddolen hon: https://tocyn.cymru/en/event/83806b7c-5f1a-4873-b200-c0c4adc6fcbb.

Nid oes raid archebu tocyn ar gyfer y digwyddiad, ond gofynnwn ichi wneud hynny os yw'n bosib er mwyn inni sicrhau amcan o'r niferoedd er mwyn trefnu cinio, a fydd ar gael yn rhad ac am ddim.

## Croesair y Pasg – atebion

**Ar draws** 7 Gwynfa 8 y groes 9 cawg 10 i gyhoeddi 11 Dydd Sul y 12 y corn 15 cysur 17 mawrygu 20 fy meiau i 22 ddod i 23 gawell a 24 dau ddyn
**I lawr** 1 cwch ar y 2 yn agosáu 3 Daniel a 4 lythyr 5 arno 6 weiddi'r 13 carodd Duw 14 cariad a 16 yn y cae 18 gadwyn 19 Sarah 21 Eden
**Gair cudd:** Cydlawenhawn

Diolch am yr 17 croesair cywir a gyrhaeddodd gelwrn y golygydd. Pleser yw cyhoeddi mai enw'r Parchg Geoffrey Eynon, Casblaidd, Sir Benfro, oedd yr enw cyntaf allan o'r celwrn. Llongyfarchiadau mawr iddo – bydd tocyn llyfr ar y ffordd yn y post yn fuan.

ADNABOD

## Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

# 21 – Cyfamod: arwydd o waith ysbrydol

### (Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 12)

### Darllen: Genesis 17:9–14

Yr wythnos diwethaf roeddwn yn pwysleisio bod y cyfamod wnaed ag Abraham yn gyfamod sicr oherwydd bod ei awdur, Duw ei hun, yn addo bod yn Dduw i'w bobl. Mae adnod 8 yn gorffen â'r ymadrodd: 'a byddaf yn Dduw iddynt'. Gyda golwg ar y cwestiwn gyda phwy y mae Duw yn mynd i gyfamod, fe welwch o'r adnodau fod y pwyslais yma nid yn gymaint yn unigolyddol, hynny yw gydag Abraham, gyda 'ti', ond 'â thi, ac â'th ddisgynyddion ar dy ôl dros eu cenedlaethau'. Mae yna wedd unigol, ond mae yna bwyslais cyfun hefyd. Dyma'r Duw sy'n galw person a phobl i fod yn berson a phobl y cyfamod. Mae'n anodd ambell waith, mewn cenhedlaeth – yn wir, bellach, mewn sawl cenhedlaeth – sydd wedi rhoi pwyslais ar fy mhenderfyniad *i*, fy newis *i*, fy anghenion *i*, fy hunaniaeth *i*, medru gwerthfawrogi bod pwyslais y Beibl ar y bobl, y teulu cyfamodol. Fel gyda phob teulu, unigolion mewn perthynas ydynt, ac felly mae pobl neu deulu Duw. Trwy ras rydym yn cael ein geni yn unigolion i mewn i'r teulu yma, a phob un ohonom yn 'aelod' o'r corff hwnnw.

Yr wyf yn nodi hyn gan fod deall yr adnodau nesaf, a deall arwyddocâd y galwad i ddiogelu enwaediad y bechgyn, yn siarad am y ffordd y mae Duw yn ein gwahodd i ymrwymo ein hunain, ond hefyd i sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn rhywbeth mwy na phenderfyniad personol: mae'n benderfyniad i gredu'r Duw sy'n ein gosod mewn teulu, y Duw sydd am weithio drwy ei deulu 'dros eu cenedlaethau'. Yr hyn sy'n cael ei orchymyn yma yw rhyw fath ar fathodyn, arwydd allanol i ddynodi bod y plant yn 'perthyn' i deulu arbennig, i bobl arbennig, pobl y cyfamod. Mae'r cyfamod wedi ei sefydlu ac yn cael ei ddiogelu drwy addewid y nef, a thrwy'r enwaediad mae yna gadarnhad o'r berthynas, cadarnhad gorfodol. Ond rhaid cadw mewn cof, o ran yr arwydd neu'r bathodyn yma, nad oedd yn warant y byddai'r sawl oedd yn ei dderbyn mewn perthynas gyfamodol bersonol â Duw. Does ond angen edrych ychydig adnodau ymhellach i weld bod hyn yn wir. Yn 17:25–7, mae Ismael yn derbyn arwydd yr enwaediad, ac yn Genesis 25 cawn hanes am Esau a Jacob yn cael eu geni. Rhaid fod Isaac wedi enwaedu Esau, er ein bod yn gwybod ei fod ef wedi gwerthu ei enedigaeth fraint am fowlennaid o gawl! Does ryfedd fod Paul yn dweud yn Rhufeiniaid 9, 'Oherwydd nid yw pawb sydd o linach Israel yn wir Israel. Ac ni ellir dweud bod pawb ohonynt, am eu bod yn ddisgynyddion Abraham, yn blant gwirioneddol iddo' (9:6–7). Yn gynharach yn yr un llythyr mae'n dweud: 'Nid Iddew mo'r Iddew sydd yn y golwg. Nid enwaediad chwaith mo'r enwaediad sydd yn y golwg yn y cnawd. Y gwir Iddew yw'r Iddew cuddiedig, a'r gwir enwaediad yw enwaediad y galon, peth ysbrydol, nid llythrennol. Dyma'r un sy'n cael clod, nid gan bobl eraill, ond gan Dduw' (2:28–9).

Er hyn, mae Abraham yn derbyn y gorchymyn i enwaedu, i wneud hynny ar yr wythfed dydd, 'boed wedi ei eni i'r teulu, neu'n ddieithryn heb fod yn un o'th ddisgynyddion, ond a brynwyd ag arian' (adn. 12). Mae'r arwydd yn un 'tragwyddol' ac mae unigolyn sy'n gwrthod enwaediad 'i'w dorri ymaith o blith ei bobl; y mae wedi torri fy nghyfamod' (adn. 14). Rwyf hefyd am dynnu eich sylw at agwedd 'tragwyddol' yr arwydd, rhywbeth sy'n cael ei bwysleisio yn adnod 13. Does ryfedd felly fod yna drafodaeth go sownd yn yr Eglwys Fore gyda golwg ar enwaediad, a beth ddylid ei wneud yn awr i ddangos bod pobl yn perthyn i deulu cyfamodol Duw. I grynhoi eu hymateb, mae'n debyg mai un o'r esiamplau gorau yw hanes tröedigaeth Cornelius yn Actau 10. Er bod hwnnw yn ŵr 'cyfiawn sy'n ofni Duw ac sydd â gair da iddo gan holl genedl yr Iddewon', eto yr oedd yn genedl-ddyn, ac yn un oedd angen cael ei herio gan yr efengyl. Yn ystod pregeth Pedr mae'r Ysbryd Glân yn syrthio gan arwain Cornelius a'r cenedl-ddynion eraill yn y lle i fawrygu Duw. Fel ymateb, mae Pedr yn dweud: '"A all unrhyw un wrthod y dŵr i fedyddio'r rhain, a hwythau wedi derbyn yr Ysbryd Glân fel ninnau?" A gorchmynnodd eu bedyddio hwy yn enw Iesu Grist' (Actau 10:47–8). Rwyf yn nodi hyn gan fod yr Apostolion wedi eu comisiynu gan Iesu, nid i enwaedu ond i fedyddio (Mathew 28:19), rhywbeth y mae Paul yn egluro, o ran perthynas y ddau arwydd yn Colosiaid 2:11–12 wrth sôn am y cyflawnder sydd i ni yn Iesu: 'Ynddo ef hefyd yr enwaedwyd arnoch ag enwaediad nad yw o waith llaw, ond yn hytrach o ddiosg y corff cnawdol; hwn yw enwaediad Crist. Claddwyd chwi gydag ef yn eich bedydd, ac yn y bedydd hefyd fe'ch cyfodwyd gydag ef drwy ffydd yn nerth Duw, yr hwn a'i cyfododd ef oddi wrth y meirw.'

Rydym ni'n deall bod yr arwydd yn un oedd yn edrych at enwaediad y galon, 'Yn awr, enwaedwch eich calonnau' (Deuteronomium 10:16); 'Ymenwaedwch i'r ARGLWYDD, symudwch flaengroen eich calon' (Jeremeia 4:4). Mae'r arwydd allanol 'cudd' yma'n pwyntio at y gwaith cudd y mae Duw am ei wneud ym mhob calon, y gwaith 'ysbrydol' yn Rhufeiniaid 2:29, oherwydd, 'Nid enwaediad sy'n cyfrif, na dienwaediad, ond creadigaeth newydd' (Galatiaid 6:15).

1. Sut fyddwch chi'n deall y berthynas rhwng bod yn blentyn unigol i Dduw a bod yn aelod o deulu cyfamodol Duw, ei Eglwys?
2. Yn hanes teulu Abraham, mae'n amlwg fod llawer wedi derbyn yr arwydd, y bathodyn, ond heb fynd ymlaen i gydnabod arglwyddiaeth Duw ar eu bywydau. Rhannwch â'ch gilydd y daith, naill ai o dderbyn yr arwydd (bedydd) i 'enwaediad y galon', neu o 'enwaediad y galon' i dderbyn yr arwydd (bedydd).
3. Roeddwn yn pregethu'n ddiweddar ar sut y dylem fyw ein bywyd teuluol gan ddangos gwynfyd perthynas ag Iesu, a realiti gweledig 'ffrwyth yr Ysbryd' yn ein bywydau i'n plant. Wrth edrych ar Mathew 5:1–12 a Galatiaid 5:22–5, sut mae byw bywyd sy'n gwneud yr efengyl yn apelgar i'n plant?

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 30 Ebrill, am 7.30yh**

**Rhagflas o Eisteddfod yr Urdd, Sir Gâr**

Bydd Lisa Gwilym yn ymweld â Llanymddyfri wrth i'r dref baratoi i groesawu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Cawn edrych ymlaen at gyffro'r ŵyl, ac edrych yn ôl ar rai o'r emynwyr mawr sydd wedi rhoi'r fro ar y map. Daw'r canu cynulleidfaol o Gapel Gellimanwydd, Rhydaman.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 30 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp**

Rhaglen o emynau wedi'u perfformio gan Gantorion Glannau Teifi

**Sul, 30 Ebrill, am 12:00yp**

Oedfa dan arweiniad Christian Williams, Penclawdd

# Dydd Gweddi'r Byd

Dydd Gwener, 3 Mawrth, oedd Dydd Gweddi'r Byd eleni, a chynhaliwyd gwasanaethau ledled Cymru yn rhan o'r digwyddiad byd-eang hwn – rhai ar y diwrnod ei hun ac eraill ar ddyddiau cyfagos, er enghraifft ddydd Sul, 5 Mawrth. Mudiad Eciwmenaidd Byd-eang a arweinir gan ferched yw Dydd Gweddi'r Byd, a gwahoddir gwledydd gwahanol i baratoi'r gwasanaeth bob blwyddyn. Chwiorydd Taiwan oedd wedi paratoi'r gwasanaeth eleni, a'r thema a ddewiswyd ganddynt oedd 'Clywais am eich ffydd', yn seiliedig ar Effesiaid 1:15–16.

Dyma ddetholiad o luniau o rai o'r gwasanaethau a gynhaliwyd, a'r cymdeithasu yn dilyn y gwasanaeth hefyd. Bu Carys Humphreys, sy'n weithiwr cenhadol ar ran Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Taiwan, yn addoli mewn gwasanaeth yn Taipei yn y bore, cyn ymuno dros Zoom â'r gynulleidfa yng Nghynllwyd ac yng Ngholeg y Bala gyda'r hwyr.


Capel y Rhos, Llandrillo-yn-Rhos


Capel y Dyffryn, Llandyrnog, gyda Chwiorydd Eglwys Sant Tyrnog


Carys Humphreys mewn oedfa yn Taipei, Taiwan


Taipei, Taiwan


Capel Ffynnonbedr, Sir Gaerfyrddin


Capel y Groes ac Ebeneser, Wrecsam


Chwiorydd Mynydd Seion Abergele


Capeli Dinbych gyda 'i gilydd yng Nghapel y Fron


Coleg y Bala, gydag aelodau Gofalaeth Thomas Charles, Annibynwyr ac Eglwys Crist y Bala


Eglwys Castellnewydd Emlyn


Capel Seion, Ceredigion


Capel Pen-cae, gydag Eglwys Annibynnol Nanternis


Capel Cynllwyd, Gofalaeth Bro Llanuwchllyn


Clapham, Llundain


Capel y Garn a'r Noddfa, Bow Street


Capel Pen-llwyn ac Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor


Blaenannerch, Ceredigion

# Barn Annibynnol

## Yr Ŵyl Ban Geltaidd

Mi ges i brofiad newydd ddiwedd gwyliau'r Pasg – cael mynd i'r Ŵyl Ban Geltaidd oedd yn cael ei chynnal eleni yn Carlow, Iwerddon. Roeddwn i wedi clywed llawer am yr ŵyl, ond erioed wedi bod iddi. Felly pan ddywedodd Côr Dre – rwy'n cyfeilio iddynt – eu bod am fynd i gystadlu, roeddwn yn edrych ymlaen yn arw!

### Codi angor

Doeddwn i ddim yn edrych ymlaen gymaint i'r cychwyn plygeiniol o Gaernarfon i ddal y llong o Gaergybi. A dyna siom o ddarganfod fod y cwch yn mynd i fod ddwy awr a hanner yn hwyr yn hwylio – i feddwl y byswn wedi gallu cael aros yn fy ngwely! Roedd rhaid dod o hyd i fan cyfforddus ar y llong – mae'n daith o dros dair awr i'r Ynys Werdd – a dyma ddod ar draws y lolfa *hygge*. Ydach chi'n gyfarwydd â'r gair Sgandinafaidd *hygge*? Mae'n anodd ei gyfieithu yn union – fel 'hiraeth' yn y Gymraeg. Mae'n disgrifio teimlad cysurus, cynnes a diogel ac mae'n golygu hyrwyddo lles meddyliol ac emosiynol drwy'r teimladau a'r profiadau hyn.

### Dathlu diwylliannau

Doedd dim llawer o gyfle am *hygge* ar ôl cyrraedd Carlow! Trefn y dyddiau oedd canu, cymdeithasu, dawnsio gwerin, mwy o ganu a chymdeithasu ac i ni fel côr – mwy o ganu fyth! Mae'r gwledydd yn cynnal nosweithiau adloniant; nos Wener oedd noson y Cymry ac fel y gallwch fentro, roedd llawer o ganu! Cyfle'r Albanwyr oedd hi ar y nos Sadwrn, ac yma roedd pibwyr a llawer o ddawnsio gwerin yn y ceilidh! Ond rhwng y dawnsio gwerin gwyllt, roedd cyfle i fwynhau canu traddodiadol Gaeleg. Wrth wrando ar ferch ifanc o ynys Harris yn canu, mi gefais fy atgoffa o ba mor fregus yw'n diwylliant a'n ieithoedd yn y gwledydd Celtaidd.

### Bregus

Rydym yn ymwybodol o fregusrwydd ein sefyllfa ni yma yng Nghymru, a hynny yn cael ei danlinellu yn ystod yr wythnosau hyn gan yr ymateb i benderfyniad Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i ddefnyddio'r enw Cymraeg yn unig o hyn ymlaen. Mae'r anwybodaeth a'r atgasedd ynglŷn â'r penderfyniad yn cadarnhau pam fod yn rhaid i ni barhau i fod yn effro a chadarn yn ein hymdrechion i warchod ein treftadaeth. Ond mae sefyllfa'r Aeleg yn yr Alban yn fwy bregus na'r Gymraeg a'r atgasedd maent yn ei wynebu am fynnu hawliau a statws i'w hiaith yn dorcalonnus ar adegau.

### Sisu

Ond roedd cyffro'r ŵyl yn fy atgoffa pa mor bwysig ydy canolbwyntio ar y cadarnhaol er mwyn peidio digalonni. Mae'n anodd cyflawni dim pan mae rhywun yn ddigalon, rhaid codi'n hunain o'r gwaelodion er mwyn dal ati a pharhau i symud ymlaen. Mae yna air Sgandinafaidd arall sy'n berthnasol i hyn sef *sisu.* Mae *sisu* yn dod o'r Ffindir a'i ystyr ydy penderfyniad, dycnwch a stamina yn wyneb adfyd. Mae'n golygu dal ati hyd yn oed pan mae'r sefyllfa rydych ynddi yn gweithio yn eich erbyn. Mae'r gwledydd Celtaidd yn bendant felly wedi ymgorffori'r syniad yma o *sisu* a'r ŵyl yn brawf ein bod ni a'n brodyr a chwiorydd Celtaidd yn parhau i wneud hynny.

Mae hon yn neges i ni fel Cristnogion ac eglwysi yng Nghymru heddiw. Gallwn ni deimlo dan warchae yn aml wrth gael ein hatgoffa rownd y rîl am ddirywiad Cristnogaeth yng Nghymru; dim rhyfedd ein bod yn gallu digalonni. Ond ddaw dim o ddigalonni; rhaid codi ar ein traed, ymddiried yn nerth y Duw byw i'n harwain a'n cynnal a symud ymlaen. Rhaid dal ati. Dyma anogaeth Iago yn ei lythyr: 'Frodyr a chwiorydd, pan fyddwch chi'n wynebu pob math o dreialon, ystyriwch hynny'n rheswm i fod yn llawen. Achos pan mae'ch ffydd chi'n cael ei brofi mae hynny'n meithrin y gallu i ddal ati a pheidio rhoi'r gorau iddi. Ac mae dal ati drwy'r cwbl yn eich gwneud chi'n gryf ac aeddfed – yn barod ar gyfer unrhyw beth!'

Gŵyl Ban Geltaidd



(O.N. A rhag ofn eich bod yn meddwl, tybed a fu Côr Dre'n llwyddiannus ai peidio? Daethom yn ôl i Gaernarfon gyda thair gwobr gyntaf a theitl Côr yr Ŵyl. Trip gwerth chweil yn wir!)

**Mererid Mair**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

## Podlediad *Y Cwmni Bach*: sgwrsio gyda'n gilydd – parhad

**Adnabod**

Erbyn hyn mae sawl pennod o'r *Cwmni Bach* ar gael gyda gwestai mor amrywiol â'r canwr Delwyn Siôn, Rhun Dafydd o Gymdeithas y Cymod, a'r athrawes ioga a'r grynwraig Laura Karadog. Mae pob un o'r podlediadau'n gyfle i ddod i adnabod pobl yn well a hynny mewn awyrgylch hamddenol, hwyliog. Mae pob rhifyn o'r podlediad i'w cael ar wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Gallwch naill ai wrando arnyn nhw neu eu gwylio fel rhaglen deledu ar y we. Adnodd yw'r podlediadau hyn i chi eu defnyddio fel yr hoffech chi, naill ai ar eich pen eich hun neu mewn cwmni. Gallwch eu gwylio nhw adre ar eich cyfrifiadur neu wrando arnyn nhw ar eich ffôn. Ond hefyd maent yn adnodd digidol i'w defnyddio gan eich eglwysi.

**Adnodd hyblyg**

Beth am hyn fel syniad? Os nad oes gennych chi oedfa wedi'i threfnu, defnyddiwch un o bodlediadau *Y Cwmni Bach* yn hytrach. Gallwch gasglu ynghyd yn y capel, cael gweddi agoriadol, canu emyn yna setlo i wylio rhifyn o'r *Cwmni Bach* er mwyn clywed tystiolaeth Gristnogol, yna cloi'r cwrdd drwy ganu emyn ac offrymu gweddi. Neu beth am ddangos pennod o'r *Cwmni Bach* dros baned yn y festri neu yn neuadd y pentref adeg cyfarfod cymdeithasol yn ystod yr wythnos yn hytrach na gwahodd gwestai?

Mae gan bob un o'r gwesteion bethau difyr a da i'w dweud a phob un yn wahanol. Mae'r *Cwmni Bach* yn fodd i ni sgwrsio â'n gilydd ac y bendant mi fydd y sgwrs honno'n parhau yn ein mysg.

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk


*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Taiwan



Buom yn Taiwan mewn ysbryd! Cafwyd bendith ryfeddol o ddilyn Rhaglen Dydd Gweddi y Byd ym mis Mawrth yng nghapel Pisgah, Talgarreg, Ceredigion. Cymerwyd rhan dan lywyddiaeth y Gweinidog y Parchedig Carys Ann gan aelodau eglwysi Pisgah a Chapel y Wig, Llangrannog. Diolch i bawb sydd yn sicrhau bod y rhaglen yn ein dwylo yn flynyddol.




## Penderfyniadau 2023

Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint, Mehefin 28–30.

Bydd cyfle i gyflwyno penderfyniadau i'r Gynhadledd a dylai rhybudd o bob penderfyniad, wedi ei lofnodi gan y cynigydd a'r eilydd, gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn dydd Llun, **15 Mai 2023,** fan bellaf.

## Rhaglen Arloesi a Buddsoddi

Arloesi a Buddsoddi
Rhaglen Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Dyma gyfle i'r eglwysi gael nawdd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i fuddsoddi yn eu dyfodol drwy fentro mewn ffyrdd newydd ac arloesol o hyrwyddo a chyhoeddi'r Efengyl, ac estyn allan i wasanaethu eu cymunedau a'u hardaloedd.

Cynigir symiau sylweddol iawn – hyd at £50,000 dros gyfnod o 5 mlynedd.

Cysylltwch â Tŷ John Penri
undeb@annibynwyr.cymru 01792 795888

**Dyddiad cau cyflwyno ceisiadau am nawdd y rhaglen uchod y tymor hwn yw 28 Ebrill 2023.**

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

## SWYDDOG GWEINYDDOL

### RHAN-AMSER
### 14 AWR YR WYTHNOS

Cyfle cyffrous i fod yn rhan o dîm blaengar sy'n gweinyddu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

A ydych yn meddu'r sgiliau i ddarparu a datblygu strwythurau gweinyddol i'r Undeb?

Os felly, rydym yn awyddus i glywed gennych.

I gael pecyn gwybodaeth ymgeiswyr neu sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch â'r
Ysgrifennydd Gweinyddol,
Tŷ John Penri,
5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon,
Bro Abertawe, ABERTAWE. SA7 0AJ

Ffôn: 01792-795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

**Dyddiad cau: 28 Ebrill 2023**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*